Menter AG a Chwaraeon Ysgolion

Cynnydd wrth weithredu yn yr ysgolion Canolfannau Datblygu yng Nghymru 2004 - 2005

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

...Rhagoriaeth i bawb... …Excellence for all…

© Hawlfraint y Goron 2005

Cyhoeddwyd gan:

Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

Gellir ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos adrannol) yn rhad ac am ddim ar unrhyw ffurf neu gyfrwng cyhyd ag y bod yn cael ei ddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y cyhoeddiad.

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael yn www.estyn.gov.uk

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'r cyhoeddiad hwn at y rheolwr Cyhoeddiadau yn y cyfeiriad uchod, neu drwy neges e-bost at

publications@estyn.gsi.gov.uk

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad 4

Prif ganfyddiadau 4

Argymhellion 5

Gweithredu argymhellion yr adroddiad diwethaf 6

Effaith y Canolfannau Datblygu 7

Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon 8

Datblygiad Proffesiynol Parhaus 8

Prosiectau arbenigol 9

Ymarfer sy'n gysylltiedig ag Iechyd 9

TGCh mewn AG 9

Gymnasteg 10

Dawns 10

Rheoli'r fenter 11

Enghreifftiau o Arfer Dda 11

Cyflwyniad

1 Diben yr adroddiad hwn yw ymateb i gais gan Lywodraeth Cynulliad Cymru bod Estyn yn parhau i fonitro effaith menter AG a Chwaraeon Ysgolion (PESS) yn ystod trydedd flwyddyn gyfan ei gweithredu. Mae'r adroddiad yn crynhoi prif ganfyddiadau ymweliadau â deuddeg Canolfan Ddatblygu PESS yn ystod 2004 a dechrau 2005, a thrafodaethau gydag:

- ymgynghorwyr â chyfrifoldeb am AG mewn 9 AALl;
- penaethiaid, athrawon a disgyblion;
- swyddogion o Gyngor Chwaraeon Cymru; ac
- ymgynghorwyr a benodwyd i fynd â gwahanol rannau'r fenter yn eu blaen.

2 Mae AEM bellach wedi ymweld â chanolfannau datblygu ym mhob AALl yng Nghymru o leiaf unwaith ac wedi arfarnu eu cynnydd, ac maent wedi ymweld â chwech ohonynt ddwywaith. Mae'r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion ar gyfer gweithredu pellach i adeiladu ar lwyddiant y fenter hyd yma. Bydd y fenter yn cael ei harfarnu'n fanwl gan Estyn yn 2005-2006.

Prif Ganfyddiadau

3 Mae menter y PESS yn cael effaith fwyfwy cadarnhaol ar nifer y cyfleoedd sydd ar gael i blant ac ansawdd y ddarpariaeth a safonau cyflawniad mewn addysg gorfforol mewn canolfannau datblygu yng Nghymru.

4 Mae mynediad athrawon i ddatblygiad proffesiynol parhaus ansawdd uchel, yn enwedig yn y sector cynradd, wedi cynyddu eu hyder a'u gallu yn fawr wrth addysgu AG. O ganlyniad, mae ganddynt ddisgwyliadau uwch o ran perfformiad disgyblion. Yn benodol, mae safonau ysgolion cynradd mewn dawns, chwaraeon a gymnasteg wedi gwella'n sylweddol. Mae cyfran sylweddol o'r holl ddatblygiad proffesiynol parhaus hwn wedi canolbwyntio ar wella asesu mewn AG. Er hyn, mae nifer o athrawon yn nodi bod hwn yn faes lle mae arnynt angen fwy o hyfforddiant o hyd.

5 Mae gwaith datblygu parhaus ar bontio o CA2 i CA3 yn gwella'r parhad a'r dilyniant mewn addysg gorfforol mewn nifer o feysydd gweithgaredd. Mae Athrawon AG mewn ysgolion cyfun yn adrodd bod gan ddisgyblion lefelau gwell o wybodaeth, dealltwriaeth a medrau addysg gorfforol pan maent yn dechrau Blwyddyn 7 nag a oedd ganddynt cyn y fenter.

6 Mae'r fenter wedi gwella ymddygiad ac agweddau disgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae hyn yn creu manteision ar draws y cwricwlwm, yn ystod amserau cinio ac amserau egwyl, yn ystod amser allgyrsiol ac o fewn y gymuned yn ehangach.

7 Mae partneriaethau â sefydliadau eraill yn ffynnu. Yn benodol, mae gwaith cydweithredol gyda Campau'r Ddraig a'r Cynllun Ysgolion Iach o werth mawr i ysgolion, i ddisgyblion ac i'r sefydliadau eu hunain.

8 O gofio ei fod yn arfer safonol i ysgolion ac adrannau i gynllunio dros gyfnodau tair blynedd a chyfnod blwyddyn, mae rhyddhau arian bob tymor gan y

Cyngor Chwaraeon, a'r ansicrwydd ynghylch y lefel ariannu, yn parhau i beri bod blaengynllunio yn anodd i ysgolion canolfannau datblygu.

9 Mae'r fenter ar ei mwyaf llwyddiannus pan fydd ymgynghorydd addysg gorfforol arbenigol yn gweithio'n agos gyda'r cydlynydd PESS i lywio cynnydd, i ddarparu cefnogaeth mewn ysgolion canolfannau datblygu ac i fonitro ac arfarnu effaith ac effeithiolrwydd y fenter. Lle caiff y fenter ei rheoli drwy Unedau Datblygu Chwaraeon awdurdodau lleol, mae gormod o bwyslais o hyd ar chwaraeon ysgol a gweithgareddau allgyrsiol a dim digon ar addysg gorfforol y cwricwlwm.

10 Mae'r arbenigwyr sy'n gweithio gyda chanolfannau, gyda datblygiad proffesiynol parhaus ac addysg a hyfforddiant cychwynnol athrawon, yn parhau i weithio'n effeithiol. Bu cynnydd da iawn ar brosiectau arbenigol ar ymarfer sy'n gysylltiedig ag iechyd, gymnasteg a TGCh. Hyd yma, arafach bu'r cynnydd ar brosiectau dawns.

Argymhellion

I ddatblygu a chynnal effaith y fenter ar safonau mewn AG:

A1 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- gynnal y fenter, a chwilio am gyfleoedd i'w hymestyn fel y gellir ei chynnig i fwy o ysgolion;
- ystyried yr angen am arian pellach ar gyfer menter Campau'r Ddraig yn CA3, i ategu ac ymestyn gwaith a wneir gan PESS mewn ysgolion uwchradd, a'i hymestyn.

A2 Dylai AALlau:

- gynnal cyswllt rheolaidd gyda'r cydlynydd PESS i fonitro ac arfarnu effaith y fenter;
- gwneud yn siwr bod gan y fenter ganolbwynt clir yn y cwricwlwm addysg gorfforol;
- gwneud yn siwr y gall ysgolion gael mynediad at gyngor a chymorth AG arbenigol; a
- pheidio â disgwyl i gydlynwyr PESS weithio'n amhriodol fel ymgynghorwyr AG arbenigol.

A3 Dylai Cyngor Chwaraeon Cymru:

- barhau i ledaenu arfer dda i bob ysgol yng Nghymru;
- sicrhau bod arian newydd yn cael ei ddosbarthu'n gyfartal i bob canolfan ddatblygu newydd yng Nghymru;
- gydag AALlau, cytuno ar arian dangosol blynyddol ar gyfer canolfannau datblygu; a
- gwneud yn siwr bod yr holl arbenigwyr sy'n gweithio gyda chanolfannau datblygu yn gallu rhoi blaenoriaeth i gyngor a chymorth yn hytrach na chyfarfodydd rheoli a threfniadol.

A4 Dylai Ysgolion Canolfannau Datblygu:

- nodi ffyrdd o gynnal y fenter yn y tymor hwy.

Gweithredu argymhellion yr adroddiad diwethaf

11 Gwnaed cynnydd sylweddol wrth weithredu nifer o'r argymhellion a gynhwyswyd yn yr adroddiad diwethaf. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sicrhau bod arian ar gael i ymestyn y fenter am dair blynedd, hyd ddiwedd 2007-2008. Bydd mwy o ysgolion yng Nghymru yn elwa o hyn, ac yn sicrhau bod y fenter yn gynhwysol.

12 Mae mwy o AALlau bellach yn integreiddio rheolaeth y fenter â chynlluniau, rhaglenni a blaenoriaethau sydd eisoes yn bodoli. Ar yr un pryd, maent yn cysylltu'n rheolaidd â'u cydlynydd PESS er mwyn monitro effeithiolrwydd y fenter. Mae rhan fwyaf yr awdurdodau bellach yn rheoli menter PESS drwy eu hadrannau addysg. Hyd yn oed pan fydd adrannau hamdden yn cymryd cyfrifoldeb dros y fenter, gwelir gwelliant yn y ffocws ar addysg gorfforol.

13 Mae'r ymgynghorydd a benodwyd i fynd â rhan hyfforddiant cychwynnol athrawon menter PESS yn ei blaen yn parhau i weithio gyda sefydliadau hyfforddi athrawon tuag at gytuno ar y cynnwys hanfodol ar gyfer pob cwrs. Mae'r ddau ymgynghorydd sydd â chyfrifoldeb am hyfforddiant cychwynnol athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus wedi gweithio ar nodi a mynd i'r afael ag anghenion hyfforddiant AG yn ystod blynyddoedd cyntaf datblygiad proffesiynol. Mae'r ddau ymgynghorydd hwn, mewn partneriaeth â rheolwyr PESS y Cyngor Chwaraeon, yn hwyluso ac yn darparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol ansawdd uchel.

14 Mae gan Gymru bellach 2 gynrychiolydd (drwy'r fenter PESS) sy'n aelodau o Fwrdd Datblygiad Proffesiynol Cymdeithas ymgynghorwyr a darlithwyr AG Prydain. Mae'r corff hwn yn sicrhau ansawdd cyfleoedd datblygu proffesiynol ledled y DU. Bydd cynrychiolwyr Cymru yn cyflwyno cyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus PESS i'r Bwrdd ar gyfer sicrhau ansawdd a nod 'cutan, a thrwy hynny codi proffil y cyrsiau unigol a'r fenter.

15 Mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi codi proffil y fenter yn genedlaethol drwy ei wefan PESS. Mae gan sawl awdurdod lleol dudalen PESS ar eu gwefannau unigol hefyd. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi rhoi pecynnau marchnata a phecynnau ar gyfer y wasg i'r Cydlynwyr PESS i'w helpu i godi'r proffil lleol ymhellach. Mae'r Cyngor yn diweddaru Llywodraeth y Cynulliad yn rheolaidd ar gynnydd y fenter.

16 Bellach, mae cyfathrebu gyda Chyfarwyddwyr Addysg a chyda rhanddeiliaid eraill yn fwy rheolaidd ac agored nag yr oedd adeg yr adroddiad blaenorol. Mewn ymateb i geisiadau gan rai AALlau, mae Cyngor Chwaraeon Cymru'n dechrau dirprwyo arian a gwneud penderfyniadau yn fwy uniongyrchol mewn ymgais i wella rheolaeth leol a gwerth am arian.

17 Mae Cyngor Chwaraeon Cymru hefyd yn gwneud trefniadau ar gyfer rhannu arfer dda i bob ysgol mewn nifer o ffyrdd. Fodd bynnag, mae llawer o waith i'w

wneud o hyd i sicrhau y gall pob ysgol yng Nghymru elwa ar lwyddiannau menter PESS. Ar hyn o bryd, rhennir arfer dda drwy:

- ei chyhoeddi ar wefan PESS;
- agor cyrsiau canolfan datblygu i bob ysgol yn y gymdogaeth; a
- dosbarthu 'Pecyn Maes Chwarae' a ddatblygwyd gan gydlynwyr PESS i bob AALl, a darparu hyfforddiant i diwtoriaid i gyd-fynd â'r adnodd.

Effaith y Canolfannau Datblygu

18 Erbyn hyn mae 45 o ganolfannau datblygu yn gwbl weithredol yng Nghymru, ac mae 4 arall yn paratoi i ddechrau yn ystod 2005. Byddai arian pellach gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y fenter, ynghyd â chymorth gan AALlau, yn galluogi cael hyd at 66 o ganolfannau ledled Cymru.

19 Mae profiadau'r canolfannau datblygu peilot wedi galluogi canolfannau dilynol i wneud cynnydd yn gynt. Mae'r canolfannau a sefydlwyd am y cyfnod hwyaf wedi nodi'r gweithgareddau a gafodd yr effaith fwyaf, a dylai fod modd iddynt bellach gynnal eu gwaith pa un a fyddant yn derbyn yr un lefel o arian penodol neu beidio. Mae pob canolfan ddatblygu bellach yn rhannu arfer dda yn effeithiol o fewn ac ymhlith canolfannau ym mhob AALl. Nid yw'r rhannu hwn wedi'i gyfyngu i ffiniau'r AALlau, ond mae'n ymestyn ar draws ardaloedd daearyddol ehangach.

20 Mae nifer o AALlau o'r farn mai PESS yw un o'r mentrau lleol a chenedlaethol mwyaf llwyddiannus. Yn yr achosion gorau, mae'r AALl yn cynnwys menter PESS yn ei gynlluniau strategol. Mae rhan fwyaf yr Unedau Datblygu Chwaraeon awdurdodau lleol yn gweithio'n effeithiol gyda chydlynwyr PESS i alluogi ysgolion i gael mynediad at adnoddau a hyfforddwyr.

21 Mae gweithio mewn partneriaeth yn y canolfannau datblygu wedi'i sefydlu'n dda ac mae'n llwyddiannus. Mae'r cysylltiadau â menter Chwaraeon y Ddraig yn hynod gryf ac effeithiol, gan alluogi disgyblion i brofi ystod eang gynyddol o weithgareddau gydag arweinwyr sydd â chymwysterau da. Mae cydlynwyr PESS a chydlynwyr Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru yn cydweithio'n agosach er mwyn iddynt allu rhannu manteision y ddwy fenter. Ysgrifennodd grŵp o gydlynwyr PESS yr arf asesu Gweithgareddau Corfforol ysgolion iach, a chynhaliwyd diwrnod hyfforddi i swyddogion ysgolion iach a chydlynwyr PESS i rannu arfer dda.

22 Mae penaethiaid yn cydnabod bod addysg gorfforol a darpariaeth chwaraeon o ansawdd yn cael effaith gadarnhaol ar hunanhyder a hunan-barch disgyblion. O ganlyniad i'r fenter, mae ymddygiad ac agweddau at ysgol wedi gwella.

23 Mae cydlynwyr PESS yn rheoli'r nifer gynyddol o ganolfannau datblygu yn dda ac maent yn delio â phob mater gweinyddol yn effeithiol iawn. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio'n agos gyda rheolwyr lleol i sicrhau y gall rheolwyr weithio yn fwyaf effeithiol ar faterion addysg gorfforol. Fodd bynnag, mae angen i rai AALlau gynnal trafodaethau pellach â rheolwyr a chydlynwyr canolfannau datblygu i gytuno ar rolau a chyfrifoldebau priodol. Lle nad yw hyn yn digwydd, mae rhai cydlynwyr yn gweithio'n annibynnol gan ddefnyddio dulliau nad ydynt yn gwbl briodol.

24 Cysylltir arbenigwyr â grwpiau o ganolfannau datblygu ledled y wlad. Maent yn gwneud cyfraniad pwysig at waith y canolfannau. Fodd bynnag, mae'r amser sydd ganddynt i dreulio gyda'r canolfannau yn gyfyngedig, ac maent yn treulio gormod o amser mewn cyfarfodydd rheoli. Dylid sianeli eu lefelau da iawn o arbenigedd yn fwy effeithiol i gynnig cyngor a chymorth ymarferol.

25 Mae pob canolfan ddatblygu yn cydnabod y cyfraniad y gwna TGCh i ddysgu ac addysgu. Mae'r rhan fwyaf wedi nodi'r cyfraniad y gall addysg gorfforol a chwaraeon ei wneud i fedrau allweddol disgyblion, yn enwedig llythrennedd. Mae rhai canolfannau wedi ymgymryd â phrosiectau arloesol, ac maent wedi rhannu'r canlyniadau gyda chanolfannau ac ardaloedd eraill.

26 Mae'r gweithio llwyddiannus mewn partneriaeth rhwng Chwaraeon y Ddraig a menter PESS wedi ymestyn profiadau disgyblion yn helaeth, yn y cwricwlwm a hefyd mewn clybiau a gweithgareddau dysgu y tu allan i oriau ysgol. Mae hyn, ynghyd â datblygiad cysylltiadau gyda Swyddogion Datblygu Chwaraeon lleol, a'r defnydd cynyddol o rannu cyfleusterau ysgolion partner a Chanolfannau Hamdden, wedi codi disgwyliadau o ran disgyblion cynradd a gwella safonau chwaraeon. Yn anffodus, ni all ysgolion uwchradd gynnal y cyfleoedd hyn gan fod menter Chwaraeon y Ddraig ar waith mewn ysgolion cynradd yn unig.

Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon

27 Mae'r amser a ddarperir ar hyn o bryd ar gyfer addysg gorfforol gan sefydliadau hyfforddi athrawon yng Nghymru yn parhau i amrywio'n sylweddol. Nid oes gan unrhyw bwnc arall y goblygiadau iechyd a diogelwch cynhenid i'r un graddau ag sydd gan addysg gorfforol. Mae'n hanfodol, felly, bod pob sefydliad yng Nghymru yn cytuno ar yr elfennau hanfodol ar gyfer AG mewn cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon, ac yn eu dilyn. Mae arbenigwyr addysg gorfforol ym mhob sefydliad addysg uwch yng Nghymru yn gweithio'n galed, gyda'i gilydd, i sicrhau eu bod yn cynnig i hyfforddeion brofiad cyffredin, o ansawdd, ac o fewn y cyfyngiadau amser, er mwyn sicrhau cysondeb ym mhrofiadau dysgu disgyblion ar hyd y wlad.

28 Mae adroddiadau diweddar o sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn nodi y bydd llai o amser ar gyfer addysg gorfforol yn y flwyddyn academaidd nesaf, yn enwedig yn y sector cynradd, ac mewn rhai sefydliadau, gall pobl nad ydynt yn arbenigwyr fod yn gysylltiedig â'i chyflwyno. Mae effeithiau'r penderfyniadau hyn heb eu gweld eto, ond nid ydynt yn debygol o wella paratoadau athrawon sy'n ymuno â'r proffesiwn.

Datblygiad Proffesiynol Parhaus

29 Mae'r cyfleoedd datblygu proffesiynol a ddarparwyd gan y fenter yn ystod ei blynyddoedd cynnar wedi canolbwyntio'n bennaf ar athrawon cynradd nad ydynt yn arbenigwyr. Ers i'r fenter gychwyn, mae dros 2500 o athrawon wedi derbyn hyfforddiant mewn dros 250 o gyfleoedd hyfforddi gwahanol. Mae'r hyfforddiant hwn wedi dylanwadu ar strategaethau addysgu, ac wedi gwella gwybodaeth a dealltwriaeth athrawon am addysg gorfforol yn sylweddol. Mae ansawdd addysgu addysg gorfforol mewn ysgolion cynradd wedi gwella gryn dipyn. Bu effaith sylweddol hefyd ar hyder, brwdfrydedd ac ymrwymiad athrawon. Mae cyfran sylweddol o'r holl

ddatblygu proffesiynol hwn wedi canolbwyntio ar wella asesu mewn AG. Er hynny, mae nifer o athrawon yn parhau i nodi bod arnynt angen fwy o hyfforddiant yn y maes hwn.

30 Cynhaliodd Cyngor Chwaraeon Cymru archwiliad o anghenion datblygiad proffesiynol parhaus fel rhan o strand datblygiad proffesiynol parhaus PESS. Nododd hwn bod addysgu addysg gorfforol i blant ag anghenion addysgol arbennig o fewn dosbarthiadau prif ffrwd yn destun pryder i nifer o athrawon. Mae'r Cyngor eisoes wedi penodi arbenigwr anghenion addysgol arbennig sydd â chefndir addysg gorfforol i roi cyngor a chymorth sy'n fawr eu hangen, ac i ddatblygu adnoddau ar gyfer athrawon. Bydd hyn yn brif ganolbwynt i fenter PESS, a bydd yn cefnogi agenda cynhwysiant Llywodraeth Cynulliad Cymru.

31 Fel rhan o fenter PESS, mae Cyngor Chwaraeon Cymru, ar y cyd â Chymdeithas ymgynghorwyr a darlithwyr AG Prydain, wedi llunio Cod Ymarfer ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus i godi safonau ledled Cymru. Mae'r ddogfen yn egluro'r disgwyliadau y dylai athrawon a darparwyr AG eu rhannu ynghylch cyfleoedd datblygiad proffesiynol. Mae'n gosod y safon ar gyfer gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus AG, ac yn cefnogi darpariaeth ansawdd uchel ledled Cymru. Bydd hyn yn gwella ansawdd datblygiad proffesiynol ac yn arwain at fwy o gysondeb mewn hyfforddiant ledled y wlad.

Prosiectau arbenigol

Ymarfer sy'n Gysylltiedig ag Iechyd

32 Cynhaliodd rhai canolfannau datblygu dethol beilot o adnoddau drafft ar gyfer cyfnodau allweddol 1 i 4 yn ystod y flwyddyn academaidd hon, a chynhaliwyd adolygiad o'r adnoddau yng Nghanolbarth Cymru ym mis Tachwedd. Yn dilyn diwygiadau i'r cynnwys a chynllun yr adnoddau, fe'u hanfonwyd at ACCAC, Estyn, Is-adran Hybu Iechyd Llywodraeth Cynulliad Cymru, a detholiad o Ymgynghorwyr AG a ABCh ar gyfer ymgynghori. Yn ogystal, mynychodd ymgynghorwyr, darlithwyr a swyddogion ysgolion iach sesiwn friffio yng Nghanolbarth Cymru ym mis Tachwedd.

33 Cyhoeddir yr adnodd ar CD yn Rhagfyr 2005, mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid. Yna, bydd Cyngor Chwaraeon Cymru'n hyfforddi tiwtoriaid i gynorthwyo athrawon wrth gyflwyno'r adnodd ym mhob ysgol yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw'r adnoddau'n ddigon cyfeillgar i'r defnyddiwr ar hyn o bryd, ac yn enwedig i athrawon cynradd nad ydynt yn arbenigwyr. Os ydynt i'w defnyddio'n effeithiol, bydd angen cwtogi arnynt a'u mireinio'n helaeth cyn iddynt gael eu cyhoeddi ar CD.

TGCh mewn AG

34 Bu ysgolion canolfannau datblygu yn gweithio ar argymhellion ar gyfer defnyddio TGCh mewn AG. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio TGCh mewn AG ar gyfer:

- trefnu rhaglenni, twrnameintiau a digwyddiadau;
- asesu a chofnodi;
- addysgu a dysgu;

- ymchwil ac arfarnu; a
- pherfformiad disgyblion a dadansoddi gan ddefnyddio delweddaeth weledol.

Mae'r ysgolion peilot wedi rhannu arfer dda ac wedi argymell amrywiaeth o ddulliau ar gyfer gwella'r defnydd o TGCh mewn AG.

35 Bu'r rheolwr PESS yn ymchwilio i ddefnydd a strwythur posibl gwefan ryngweithiol ar gyfer PESS. Bydd y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu yn profi is-wefan ar gyfer PESS yn ystod tymor yr haf, a fydd wedyn yn agored i bob ysgol ym mis Medi 2005. Ymysg y cynnwys a awgrymwyd y mae:

- cronfa o ddelweddau gweledol;
- templedi ar gyfer taflenni gwaith, cyflwyniadau a deunyddiau;
- hysbysfwrdd ar gyfer gosod gwybodaeth i athrawon;
- gwybodaeth ymchwil, monitro ac arfarnu;
- astudiaethau achos a rhannu gwybodaeth;
- dogfennau a grëir drwy ganolfannau datblygu; a
- chysylltiadau a gwefannau defnyddiol.

Bydd y ddwy fenter hon, sydd mewn maes addysg gorfforol nad yw wedi cael ei ddatblygu'n ddigonol, o werth mawr i ysgolion.

36 Trefnodd Cyngor Chwaraeon Cymru gynhadledd TGCh ryngweithiol ym Mawrth 2005, wedi'i hanelu'n benodol at arbenigwyr AG mewn ysgolion uwchradd, i rannu profiadau'r ysgolion peilot ac i gynnig profiad uniongyrchol o'r adnoddau a fydd ar gael. Mae cynadleddau pellach yn yr arfaeth, gan gynnwys un ar gyfer athrawon cynradd, i sicrhau bod cynifer o athrawon â phosibl yn cael gwybod am yr adnoddau sy'n deillio o PESS, gyda rhai ohonynt yn gwella addysgu ymarfer sy'n gysylltiedig ag iechyd, gymnasteg a dawns.

Gymnasteg

37 Mae menter PESS a Gymnasteg Cymru wedi sefydlu cysylltiadau da iawn. Canolbwynt cychwynnol eu gwaith fu codi safonau a lefelau hyder athrawon mewn ysgolion cynradd. Bu gweithgareddau, hyfforddiant ac adnoddau gymnasteg yn flaenoriaeth i nifer o ganolfannau datblygu. Darparodd ymgynghorwyr AG a darlithwyr o sefydliadau addysg uwch gyngor gwerthfawr ar gynnwys yr adnoddau a'r hyfforddiant. Mae ysgolion eisoes wedi elwa o nodi sawl enghraifft o arfer dda, dulliau dysgu a hyfforddi newydd, cynlluniau ac unedau gwaith a deunyddiau ystafell ddosbarth.

38 Mae'r arbenigwyr gymnasteg wedi llunio fframwaith drafft ar gyfer CA1 a CA2. Mae adnoddau athrawon a disgyblion yn cyd-fynd â hwn, a chafodd y fframwaith ei brofi'n llwyddiannus iawn mewn ysgolion. Mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn ymchwilio i bartneriaethau ariannu posibl i alluogi bod yr adnoddau ar gael i bob ysgol.

Dawns

39 Argymhellion o'r Gynhadledd Dawns Genedlaethol ym mis Medi 2004 a ffurfiodd sail Cynllun Gweithredu Dawns PESS. Trosglwyddwyd argymhellion a

oedd y tu hwnt i gylch gwaith PESS i'r prif sefydliadau dawns yng Nghymru. Trefnodd Dawns Gymunedol Cymru sesiwn ddilynol ym mis Hydref. Ers hynny gwnaed cynnydd ar amrywiaeth o agweddau. Mae cydlynwyr PESS wedi datblygu cysylltiadau da gydag ysgolion ac ymarferwyr dawns cymunedol, ac mae nifer o astudiaethau achos arfer dda yn ymddangos.

40 Mae Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Chwaraeon Cymru wedi cyhoeddi nodiadau arweiniad defnyddiol ar gyfer canolfannau datblygu ac awdurdodau lleol sy'n gwneud cais i'r Cyngor Celfyddydau am arian ar gyfer gweithgareddau dawns. Dosbarthwyd yr arweiniad i bob parti â diddordeb, ac mae ambell ganolfan ddatblygu eisoes yn derbyn grantiau i ymestyn y gwaith o fewn eu hysgolion.

Rheoli'r fenter

41 Mae pob cydlynydd PESS mewn AALlau yn rheoli o leiaf ddwy ganolfan ddatblygu. Mae rheolwr PESS Cyngor Chwaraeon Cymru yn rheoli'r fenter gyfan yn effeithlon ac yn effeithiol. Aethpwyd i'r afael â'r materion a nodwyd y llynedd, gan gynnwys y galw am drefniadau cyswllt effeithiol â'r AALlau.

42 Mae cydlynwyr PESS hefyd yn gweithio'n effeithiol wrth gefnogi rheolwyr lleol ac ysgolion yn eu canolfannau datblygu. Fodd bynnag, dylai Cyngor Chwaraeon Cymru annog pob AALl i ymgymryd ag adolygu a monitro parhaus o rôl a gwaith y cydlynydd. Er y cafodd y mater hwn ei amlygu'r llynedd, mae rhai AALlau heb ymgynghorwr AG yn parhau i ddefnyddio'r cydlynydd PESS i ddarparu cyngor a chymorth AG arbenigol i ysgolion. Os nad oes gan y cydlynydd gefndir yn y cwricwlwm AG, neu brofiad cyfyngedig, mae hyn yn gwbl amhriodol. Mae'n rhoi'r cydlynydd a'r awdurdod mewn sefyllfa hynod o fregus.

43 Mae angen i Gyngor Chwaraeon Cymru ailystyried dulliau amgen o ryddhau cyllid i ganolfannau datblygu. Mae'r Cyngor yn disgwyl i ganolfannau datblygu gynllunio dros gyfnodau o flwyddyn a thair blynedd. Eto, mae hyn yn anodd iawn i'r canolfannau, gan mai ar sail dymhorol yn unig y maent yn cael gwybod faint o arian y byddant yn ei dderbyn gan y Cyngor Chwaraeon. Mae angen i'r Cyngor gytuno ar gyllidebau dangosol ar gyfer y flwyddyn gyfan i alluogi canolfannau datblygu ac ysgolion i gynllunio'n effeithiol ac yn effeithlon.

Enghreifftiau o arfer dda

44 Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos canlyniadau o fenter PESS a oedd yn arbennig o lwyddiannus.

Rheoli'r Fenter

Mae un AALl yng Ngogledd Orllewin Cymru wedi cynnwys PESS yn ei Gynllun Strategol Addysg. Mae hyn yn rhoi blaenoriaeth uchel i fenter PESS. Mae gan y fenter flaenoriaeth uchel debyg yn yr ysgol gyfun arweiniol yng nghanolfan ddatblygu gyntaf yr AALl. Fan hyn, PESS yw'r trydydd maes blaenoriaeth yng nghynllun datblygu'r ysgol ar ôl llythrennedd a rhifedd. Yn yr ysgol gyfun hon, mae'r uwch dîm rheoli yn cydnabod bod cynlluniau ac arferion pontio CA2/CA3 PESS yn enghreifftiau

o arfer orau ac mae'n annog adrannau eraill i ddatblygu cysylltiadau cwricwlaidd tebyg gydag ysgolion cynradd partner.

Mae'r awdurdod yn gweithio'n agos ac yn effeithiol gydag ymgynghorydd AG yr AALl, sy'n adrodd yn rheolaidd i uwch swyddogion ar ddatblygiadau yn nwy ganolfan ddatblygu'r AALl. Mae'r ymgynghorydd AG yn gweithio'n agos â'r cydlynydd PESS, sydd â phrofiad blaenorol o ddatblygiad chwaraeon, i ddarparu datblygiad proffesiynol ansawdd uchel i wella gwybodaeth a dealltwriaeth y cydlynydd PESS am faterion y cwricwlwm. Mae hyn wedi cynyddu effeithiolrwydd y cydlynydd PESS yn ei waith gydag ysgolion.

Swyddog cyllid yr AALl sy'n rheoli'r gyllideb ar gyfer y fenter. Mae'n anfon cyfrifon misol i'r ymgynghorydd AG ac i'r cydlynydd PESS. Mae hyn wedi lliniaru ar y galwadau o ran cynllunio ariannol a osodwyd ar y cydlynydd PESS, sydd heb gefndir ariannol arbenigol, yn debyg i gydlynwyr ledled Cymru.

Ymddygiad, agweddau a phartneriaethau

Lleolir yr ysgol iau hon yng Ngogledd Ddwyrain Cymru mewn ardal o amddifadedd cymdeithasol dwys ac mae'n ardal Cymunedau yn Gyntaf. Mae gan yr ysgol lai na 100 o ddisgyblion, ac mae hanner ohonynt yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae gan fwyafrif helaeth o'r disgyblion hyn anghenion addysgol arbennig a phroblemau ymddygiad.

Mae'r pennaeth yn gyrru'r fenter PESS yn ei blaen. Mae hi wedi trefnu bod ysgolion lleol yn canolbwyntio ar chwaraeon arbennig ar amserau penodol o'r flwyddyn, fel y gall gŵyl ardal ddigwydd ar ôl i'r ysgolion i gyd gwblhau hanner tymor o waith ar weithgaredd penodol. Wrth gynrychioli eu hysgol, mae'r disgyblion yn ei hysgol hi bellach yn cael yr un cyfleoedd â disgyblion mewn ardaloedd mwy breintiedig a fu'n chwarae mewn cystadlaethau am rai blynyddoedd. O ganlyniad i hyn, mae'r disgyblion hefyd yn dysgu i weithio gyda'i gilydd yn well.

Mantais ychwanegol, ac nid yn hollol ddisgwyliedig, yw'r cynnydd amlwg yn hyder a hunan-barch y plant. Maent yn dwyn y ddisgyblaeth sy'n hanfodol mewn addysg gorfforol a chwaraeon ysgol o ansawdd uchel ymlaen i fywyd yr ysgol. Mae hyn wedi rhoi ymdeimlad o bwrpas i'r disgyblion. O ganlyniad, bu gwelliant amlwg yn ymddygiad ac agweddau disgyblion a oedd wedi'u dadrithio. Mae disgyblion ar draws yr ystod gallu bellach yn cyflawni mwy nag erioed ar draws y cwricwlwm.

Mae ymglymiad rhieni â'r ysgol hefyd wedi cynyddu gan fod rhieni'n mynychu gemau a gwyliau i gefnogi eu plant. Nid oedd hyn gynt yn nodwedd o'r ysgol hon. Mae perthnasoedd rhwng yr ysgolion cynradd yn yr ardal yn well hefyd.

Bu datblygiad nodedig yn y cysylltiadau â'r ganolfan hamdden leol, ac mae perthnasoedd rhwng y ganolfan a disgyblion lleol wedi gwella'n rhyfeddol. Mae gan yr ysgol enw gwell yn y gymuned bellach. Gall plant o'r ysgol ddefnyddio'r cyfleusterau yn rhad ac am ddim fel rhan o'u gwersi AG. Mae'r pennaeth hefyd yn mynd â'r plant i'r ganolfan ar gyfer clwb nofio ar ôl ysgol. Mae'r plant hefyd yn defnyddio'r ganolfan y tu allan i oriau ysgol, ac maent yn annog eu rhieni i ddefnyddio'r cyfleusterau hefyd.

Rhannu arfer dda

Trefnodd un ymgynghorydd AG, sydd â chyfrifoldeb am bedwar AALl yn Ne Ddwyrain Cymru, ddiwrnod o'r enw 'Cau'r Bwlch – dathliad o arfer dda'. Nod y digwyddiad oedd rhannu canlyniadau o'r canolfannau dysgu ym mhob awdurdod. Gwahoddodd yr ymgynghorydd gynrychiolydd o bob ysgol yn y pedwar awdurdod i'r digwyddiad. Hefyd, mynychwyd y digwyddiad gan ystod o arddangoswyr sy'n cefnogi menter PESS. Roedd y rhain yn cynnwys cwmnïau meddalwedd TGCh, cyflenwyr offer addysg gorfforol, Chwaraeon y Ddraig a Ffitrwydd Cymru.

Arddangosodd bob un o'r canolfannau datblygu ystod o'u gwaith. Roedd hyn yn cynnwys arddangosfeydd ymarferol o gymnasteg a dawns gan ddisgyblion, adnoddau addysgu a dysgu a ddatblygwyd mewn canolfannau datblygu penodol i gefnogi eu blaenoriaethau, a phortffolios o waith TGCh disgyblion mewn AG.

Darparodd y rheolwr PESS cenedlaethol becyn cynrychiolwyr i bawb a fynychodd. Roedd y pecyn yn cynnwys gwybodaeth am y fenter genedlaethol, gan gynnwys y prosiectau arbenigol. Roedd yr ymgynghorydd a'r cydlynwyr PESS hefyd wedi darparu pecyn lleol gyda gwybodaeth am waith yr holl ganolfannau datblygu lleol. Roedd athrawon o ysgolion canolfannau datblygu wrth law i fanylu ar eu gwaith ac i ateb unrhyw gwestiynau.

Yn ystod y diwrnod, cymerodd athrawon ran mewn nifer o drafodaethau grŵp ynglŷn â'r fenter a'r potensial y mae'n ei gynnig i bob ysgol. Roedd yr athrawon yn gadarnhaol iawn am y cyfleoedd i gyfrannu at faterion ac i'w trafod, ac roedd nifer ohonynt yn bwriadu symud rhai rhannau o'r fenter ymlaen yn eu hysgolion hwy, heb arian penodol gan PESS.

Bydd un o ymgynghorwyr AG Gogledd Cymru yn cydlynu ac yn cynnal digwyddiad tebyg ym mis Gorffennaf, a fydd yn cynnwys pob canolfan ddatblygu yng Ngogledd Cymru.